

# **Arolygiad Dilynol Dirybudd o Wasanaethau Anabledd Dysgu Preswyl**

Cyf: 16024F: Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 4 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 1 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	5
3.	Yr hyn a ganfuom.....	6
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .....	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C – Cynllun Gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- **Cydweithredol:** rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd dilynol o leoliad 16024, gwasanaeth anabledd dysgu preswyl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 4 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, er bod rhywfaint o welliannau wedi cael eu gwneud roeddem yn dal i bryderu nad oedd y gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol trwy'r amser.

Canfuom dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes, a bod rhai o'r argymhellion o'r adroddiad gwreiddiol angen sylw o hyd.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol i gleifion fyw ynddo
- Roedd staff yn wybodus iawn ynglŷn ag anghenion y cleifion a oedd dan eu gofal
- Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus ac yn rhydd rhag arogleuon gwael
- Roedd hyfforddiant staff wedi gwella
- Roedd gwaith rheoli llinell a chefnogaeth i staff yn y gwasanaeth wedi gwella rhywfaint

- Roedd diogelwch tân wedi cael sylw
- Roedd gwaith rheoli meddyginiaeth wedi gwella.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwella strwythurau llywodraethu ariannol
- Mae mynediad at TG yn dal i beri problem
- Mae angen cefnogaeth fwy amserol oddi wrth reolwyr
- Mae angen gwella prosesau recriwtio
- Mae staff yn gweithio ar eu pennau eu hunain gan fwyaf ac mae anawsterau o hyd wrth gysylltu ag uwch reolwyr am gyngor arferol ac mewn argyfwng
- Mae morâl staff yn dal yn wael iawn.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, gweler Atodiad A.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Arolygodd AGIC leoliad 16024 ddiwethaf ar 14 Gorffennaf 2016<sup>1</sup>.

Roedd y prif feysydd yr oedd angen eu gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn hygyrch oherwydd problemau TG, felly nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod iechyd, diogelwch a llesiant defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu gwarchod

---

<sup>1</sup> [Arolygiad Anabledd Dysgu: Cyf 16024 - Hydref 2016](#)

- Roedd y rheolwr wedi bod yn absennol oherwydd salwch hirdymor ac roedd y staff wedi bod heb gefnogaeth uniongyrchol gan reolwyr yn ystod y cyfnod hwn
- Bu lefelau staffio yn broblem droeon. Yn aml, roedd hyn yn golygu nad oedd digon o staff i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth
- Roedd angen gwelliant o ran rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys rhoi arweiniad clir i'r staff ynghylch gweinyddu meddyginiaeth
- Nid oedd y trefniadau diogelu rhag tân yn ddigonol
- Roedd lefelau staffio'n cyfaddawdu ansawdd bywyd y cleifion gan nad oedd modd cefnogi gweithgareddau hybu llesiant dyddiol ac wythnosol yn aml.

Diben yr arolygiad hwn oedd mynd ar drywydd y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Mae AGIC yn pryderu o hyd ac yn parhau i gynnal cyfarfodydd a sgysiau â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â'r gwelliannau gofynnol i ddarpariaeth gwasanaethau anabledd dysgu preswyl ar draws y bwrdd iechyd.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roeddem yn gallu cadarnhau bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â hyfforddiant staff sydd yn ddi-os yn gwella profiad y claf. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn araf o ran asesiadau cyfannol o anghenion cleifion, cynlluniau gofal a chadw cofnodion electronig.

## Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Ceisiodd AGIC sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'r canlynol:
  - Dylid rhoi cynlluniau gofal ac asesiadau risg newydd ar waith ar gyfer pob claf yn yr uned
  - Dylid diogelu gwybodaeth am gleifion a dylid cael trefniadau digonol wrth gefn ar gyfer cofnodion electronig
  - Dylid cymryd camau priodol mewn perthynas â cholli gwybodaeth trwy ddamwain a thorri Atodiad 1 (7) Deddf Diogelu Data a dylid hysbysu Llywodraeth Cymru am y digwyddiad hwn, oherwydd yr effaith ar anghenion parhaus cleifion.
- Dylid sicrhau bod trefniadau cefnogi digonol ar waith i alluogi cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau i hybu eu llesiant
- Dylid sicrhau bod cyfathrebu cydlynol rhwng aelodau'r tîm amlddisgyblaeth a bod cyfarfodydd amlddisgyblaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Dylid sicrhau bod asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol cyfredol ar waith ac ar gael i staff
- Dylid rhoi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Yn benodol, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall



defnyddwyr gwasanaeth gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu nad ydynt o bosibl yn gallu dod i ymweld â nhw.

## **Pa gamau a ddywedodd y gwasanaeth y byddent yn eu cymryd**

Cadarnhaodd y gwasanaeth fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, neu yr ymrwymwyd i gymryd camau fel a ganlyn:

- Mae cynlluniau gofal, asesiadau craidd a phroffiliau risg i gael eu hargraffu i ddarparu copi caled ac yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo
- Mae person cyswllt yn y Tîm Gwybodeg lleol wedi cael ei enwebu i roi sylw i unrhyw broblemau gyda mynediad at y rhwydwaith. Mae mynediad at y Matrics Rhwydweithiau wedi cael ei ddatblygu i ganfod bylchau o ran mynediad at systemau rhwydwaith. Mae cyfrineiriau'r rhwydwaith wedi cael eu hailosod ar gyfer yr holl staff ac arsylwyd ar staff yn mewngofnodi ar y systemau ac yn derbyn canllawiau cam wrth gam, sydd wedi cael eu gosod wrth ymyl y cyfrifiadur
- Bydd yr holl ddogfennau papur yn y dyfodol sy'n ymwneud â chleifion yn cael eu huwchlwytho ar system Partneriaid Gofal FACE (Functional Analysis of the Care Environment) er mwyn i staff gael mynediad atynt
- Staff i gwblhau Matrics Mynediad at Rhwydweithiau i ganfod bylchau ac unrhyw anghenion hyfforddi
- Mae'r arweinydd tîm dros dro yn trefnu dyddiadau gyda'r tîm anabledau dysgu cymunedol i ymgymryd â 'Diwrnodau Hyfforddiant Rhwydwaith'. Rhaid i hyn gynnwys cyfranogiad gan y tîm cyfan wrth adolygu cynlluniau gofal, cynlluniau cefnogi ymddygiad ac asesiadau risg cyfredol yr holl denantiaid, gan gynnwys y rhai nad ydynt ar agor i'r tîm anabledau dysgu cymunedol ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiffygion o ran sgiliau neu hyfforddiant a nodir gan therapyddion yn cael eu darparu i'r tîm staff ar y diwrnod
- Bydd sesiynau sgiliau yn cael eu cyflenwi i'r holl aelodau staff yn unigol lle nodwyd bod angen gwelliannau o ran sgiliau TG
- Mae'r gyriant caled blaenorol y cyfrifiadur a chwalodd yn ddiweddar wedi cael ei anfon at gwmni TG allanol am asesiad cychwynnol o'r ffeiliau y gellir eu hadfer; roedd y gwasanaeth wedi derbyn rhestr o'r ffeiliau y gellir eu hadfer i'w hadolygu. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw doriad y dylid hysbysu amdano. Roedd copi o'r holl wybodaeth ar gof bach

- Mae'r nyrs arwain broffesiynol wedi asesu anghenion gofal y tenantiaid ac wedi datblygu amserlen 24 awr ar gyfer pob unigolyn sy'n nodi gweithgareddau arferol yn ogystal â gweithgareddau i alluogi'r tenantiaid i chwarae rhan lawnach yn y gymuned. Roedd hyn yn seiliedig ar ddull cymorth gweithredol. Mae'r amserlenni hyn wedi nodi bylchau o ran y staff y mae eu hangen i gefnogi'r gweithgareddau arfaethedig ac wedi arwain at benderfyniad i recriwtio dau gydlynedd gweithgareddau rhan amser ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Cymeradwyo staff asiantaeth ar unwaith i gefnogi'r tîm staff presennol. Gwnaed cais i asiantaethau contractio lleol i ddarparu staff ychwanegol â phrofiad perthnasol ym maes anabledau dysgu
- Mae unigolyn wedi cael adolygiad gofal cymdeithasol ac argymhellwyd Taliadau Uniongyrchol ar gyfer y tenant hwn.
- Mae cyfarfodydd tîm wedi cael eu hailsefydlu ar sail fisol a byddant yn cael eu cofnodi i gynnwys adborth o'r canlynol: cyfarfod Dangosfwrdd Anabledau Dysgu (Busnes), Grŵp Cyfeirio'r Tîm Amlddisgyblaeth (Llywodraethu Clinigol), cyfarfod y Gofrestr Risg a chyfarfod Amcanion Gwasanaeth.
- Bydd yr arweinydd tîm dros dro'n trefnu timau amlddisgyblaeth i gynnwys y tîm staff a staff tîm anabledau dysgu cymunedol Sir Benfro bob chwe mis neu wrth i anghenion newid
- Arweinydd tîm dros dro i sicrhau agwedd amlddisgyblaethol tuag at ddarparu gofal, gyda chymorth yn ôl y gofyn h.y. diwrnodau hyfforddiant rhwydwaith y cyfeiriwyd atynt uchod i gefnogi hyn
- Arweiniodd adolygiad o denantiaethau cleientiaid at gwblhau asesiadau galluedd ym mis Hydref 2015. Ceisiwyd cyngor gan arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol y bwrdd iechyd a chan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn amlinellu camau gweithredu i symud ceisiadau Llys Gwarchod tenantiaid mewn gwasanaethau byw â chymorth yn Sir Benfro yn eu blaenau; ni chafodd y rhain eu symud ymlaen yn brydlon. Dim ond ar gyfer awdurdodi colli rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal cofrestredig y gellir defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid felly'r Llys Gwarchod yw'r unig lwybr sydd ar gael i denantiaid gwasanaethau byw â chymorth; nid ystyriwyd bod hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn briodol ar gyfer y staff yn y gwasanaethau hyn ond mae bwch o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol. Nid oedd gan staff fynediad at yr asesiadau galluedd meddyliol hynny a oedd wedi cael eu cwblhau. Cynhaliwyd asesiadau galluedd cyfredol.

Cofnodion o asesiadau galluedd meddyliol i gael eu cadw yn y cofnodion gofal

- Mae gan un tenant fynediad at wasanaethau eiriolaeth ac nid yw tri o'r tenantiaid yn derbyn y gwasanaeth hwn. Arweinydd tîm dros dro i ail-ddechrau trafodaethau â theuluoedd ynglŷn â'r gwasanaeth eiriolaeth a chyfeirio tenantiaid at Pobl yn Gyntaf Sir Benfro am gymorth eiriolaeth lle cytunir ar hynny. Arweinydd tîm dros dro i gysylltu â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro i gael eu taflen wybodaeth a rhoi'r daflen hon i deuluoedd lle cytunir ar hynny. Arweinydd tîm dros dro i ddsbarthu taflen wybodaeth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i staff a chadarnhau bod yr holl staff yn ymwybodol ohoni yng nghyfarfod nesaf y tîm. Arweinydd Tîm Dros Dro i wahodd eiriolwyr tenantiaid i gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn y dyfodol
- Nid oedd y tîm rheoli'n ymwybodol nad oedd ymweliadau teuluol yn digwydd fel rhan o'r gweithgareddau a oedd wedi eu canslo. Bydd staff ychwanegol yn cael eu darparu i alluogi ymweliadau cynlluniedig gan deuluoedd. Mae teuluoedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml ac mae un claf yn cael cymorth i ymweld â'i mam sydd mewn cartref nyrsio.

## **Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd person cyswllt wedi cael ei enwebu o'r adran TG ac mae rhai aelodau o staff yn gallu cael mynediad at gynlluniau gofal electronig yn awr. Fodd bynnag, roedd problemau o hyd o ran cyfrineiriau nad oeddent yn gweithio ac roedd rhai staff nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant o hyd.

Roedd cyfarfodydd tîm wedi cael eu hail-sefydlu. Yn dilyn yr arolygiad, anfonwyd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn at AGIC. Rydym wedi gwneud sylw pellach ar hyn ar dudalen 27 yn adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn.

Dywedodd staff wrthym nad oeddent wedi derbyn y 'Diwrnodau Hyfforddiant Rhwydwaith' gyda'r tîm anableddau dysgu cymunedol yr oedd y bwrdd iechyd wedi argymhell y dylid eu dechrau.

Trafodom y syniad o ddechrau gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer y cleifion nad ydynt yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym nad oedd hyn wedi cael sylw a dywedodd uwch reolwyr y byddent yn cysylltu â Pobl yn Gyntaf Sir Benfro am daflenni ar gymorth eiriolaeth ac yn sicrhau eu bod ar gael i gleifion a'u perthnasau.

Ni welsom dystiolaeth bod y nyrs arwain broffesiynol wedi creu amserlen weithgareddau 24 awr yn seiliedig ar y model Cefnogaeth Weithgar. I'r gwrthwyneb, dywedodd staff nad oedd preswylwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau oherwydd lefelau staffio annigonol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod dau aelod newydd o staff wedi cael eu recriwtio a'u bod yn dechrau gweithio'r wythnos ganlynol. Cefnogi gweithgareddau fyddai eu swyddogaeth.

Gwelsom arwyddion y mis Makaton<sup>2</sup> ar y bwrdd yn ystafell y staff. Er ein bod yn teimlo i ddechrau bod hwn yn faes o arfer nodedig, canfuom yn ddiweddarach nad oedd hwn wedi cael ei ddiweddarau ers mis Chwefror.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar gyfer cynnig gwasanaeth eiriolaeth.

Mae angen i'r nyrs arwain broffesiynol greu amserlen 24 awr o weithgareddau ar gyfer pob claf.

### Gofal amserol

Gwelsom fod cleifion yn cael apwyntiadau meddyg teulu ac ymweliadau ag ysbytai'n brydlon pan oedd angen. Nid oedd dim cydlynwyr wedi cael eu penodi o'r gymuned (gofal cymdeithasol). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod staff o'r tîm amlddisgyblaeth yn cyfrannu'n rheolaidd at ofal cleifion. Roedd pryder mewn perthynas ag un claf a ddylai fod yn destun darpariaethau dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a fyddai wedi cynnwys cynllun gofal a thriniaeth amlddisgyblaethol. Cafodd y mater hwn ei drafod a'i gytuno ag uwch staff ar y diwrnod.

---

<sup>2</sup>Rhaglen iaith sy'n defnyddio arwyddion a symbolau yw Makaton i helpu pobl i gyfathrebu.

Er y dywedwyd wrthym fod y tîm anableddau dysgu cymunedol wedi adolygu anghenion cleifion a diweddarau cynlluniau gofal, nid oedd hyn yn amlwg yn y cynlluniau gofal a welsom.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i gleifion ag anghenion iechyd meddwl penodol dderbyn gofal dan ddarpariaethau'r Mesur Iechyd Meddwl.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud o ran datblygu cynlluniau gofal, nid oedd y rhai a welsom yn canolbwyntio ar y claf, ac nid oeddent yn gyflawn nac yn gyfredol. Er enghraifft:

- Gwelsom fod nodau wedi cael eu pennu i'w hadolygu ym mis Awst a mis Medi 2015 ond nad oeddent wedi cael eu gwerthuso
- Roedd dyddiadau a llofnodion ar goll mewn manau
- Roedd asesiad risg ar gyfer gwyliau dyddiedig 2001 a oedd yn anghyflawn
- Y tro diwethaf y diweddarwyd asesiadau codi a chario oedd 2015
- Roedd dogfennau'r Llys Gwarchod, gan gynnwys asesiadau galluedd, yn wag ac eithrio adran 5 a oedd wedi cael ei chwblhau gan yr ymgynghorydd
- Cadarnhaodd y tîm staff hefyd nad oedd y cofnodion electronig yn hygyrch i'r holl staff. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr oedi gyda mynediad TG ac i raddau oherwydd amharodrwydd staff i ymgysylltu
- Ni welsom broffiliau 'Dyma Fi' cyflawn

Trafodom glaf yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi awgrymu y dylai dderbyn taliadau uniongyrchol a dywedodd y staff wrthym fod y mater hwn wedi cael ei adolygu a phenderfynwyd na fyddai o fudd i'r claf ar hyn o bryd.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y tŷ. Archwiliom hyn gydag uwch staff a dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cydnabod hyn ac wedi recriwtio staff rhan amser yn benodol i gefnogi'r staff parhaol i gynnal gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda'r cleifion.

Roedd y staff newydd i fod i ddechrau gweithio'r wythnos ganlynol ac felly nid oedd yn bosibl i AGIC hysbysu am ganlyniad y gwelliant hwn. Fodd bynnag, roedd y cysyniad yn gadarnhaol ac mae AGIC yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad pan fydd y gwasanaeth wedi ei sefydlu'n llawn.

Gofynnem a oedd un claf yn parhau i ymweld â'i mam mewn cartref gofal a dywedwyd wrthym fod y trefniant hwn wedi diddymu oherwydd diffyg staff ac oherwydd bod y cartref gofal yn teimlo ei fod yn peri gormod o ofid. Archwiliom a oedd y staff yn cofnodi cyfleoedd a gollwyd i gleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ymweliadau a siopa a dywedwyd wrthym nad oedd hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Gwnaethom awgrymu y dylid dechrau cofnodi'r rhain er mwyn gallu archwilio cyfleoedd a gollwyd ac unioni sefyllfaoedd ble y bo'n bosibl.

Archwiliom drefniadau ariannol unigol a chanfuom nad oedd gan gleifion gyfrifon banc unigol. Awgrymon y dylid rhoi sylw i hyn ac y dylid trefnu cardiau debyd unigol er mwyn cael mynediad diogel ac atebol at arian cleifion.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a chofnodion cleifion yn unigol, yn amserol ac yn gyflawn.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad at gynlluniau gofal electronig a'r system fewnwyd estynedig.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau dull diogel a hygyrch ar gyfer rheoli arian cleifion unigol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ni allai AGIC fod yn sicr o hyd bod y bwrdd iechyd yn darparu gwasanaeth diogel a dibynadwy yn gyson sy'n seiliedig ar anghenion unigol.

### Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Ceisiodd AGIC sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'r canlynol:
  - Bod yr holl fesurau priodol i amddiffyn cleifion yn ddigonol rhag perygl tân yn cael eu sefydlu ar unwaith
  - Bod trefniadau cadarn a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac y caiff staff gyfarwyddyd clir ynghylch gweinyddu a chofnodi meddyginiaeth.
- Bod y bwrdd iechyd, fel y darparwr gofal cyfrifol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, yn uwchgyfeirio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw mae angen ei wneud i'r ystafell ymolchi i'r awdurdod sy'n berchen ar yr adeilad er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn derbyn sylw'n ddi-oed
- Bod canllawiau clir ar gael i staff ynglŷn ag anghenion bwyta ac yfed pob defnyddiwr gwasanaeth
- Bod y bwrdd iechyd yn cynnal asesiad risg llawn ac yn sefydlu polisi lleol ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn darparu fframwaith diogel i staff, yn enwedig ar gyfer y gweithwyr cymorth sydd angen gweithdrefnau cryno a chlr i'w dilyn i gefnogi diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth
- Bod staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu, hawliau dynol a Deddf Galluedd Meddyliol, gyda chymorth hyfforddiant ac

addysg, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu a bod eu budd pennaf yn cael ei warchod bob amser.

## **Pa gamau a ddywedodd y gwasanaeth y byddent yn eu cymryd**

Cadarnhaodd y gwasanaeth fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, neu yr ymrwymwyd i gymryd camau fel a ganlyn:

- Bydd Cynllun Amddiffyn rhag Tân presennol yr uned yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2015. Bydd adolygiadau a drefnir gan swyddogion tân y bwrdd iechyd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Mae'r swyddog tân wedi cwblhau archwiliad pellach o'r Cynllun Amddiffyn rhag Tân a'r uned.
- Mae'r arweinydd tîm dros dro wedi cwblhau cynlluniau gwacáu personol unigoleddig ar gyfer pob un o'r pedwar tenant. Mae Cynllun Amddiffyn rhag Tân drafft wedi cael ei ddatblygu. Nid yw cynlluniau llawr a ddarparwyd gan Gymdeithas Tai Sir Benfro yn cyd-fynd â'r cynllun go iawn felly ni ellir eu hychwanegu at y Cynllun Amddiffyn ar hyn o bryd. Mae angen gwneud mân newidiadau pellach i'r cynllun ond gall y staff ei ddefnyddio ar unwaith.
- Mae'r swyddog tân wedi gofyn i'r Gwasanaeth Tân gynnal Gwiriad Diogelwch yn y Cartref. Bydd y swyddog tân yn cynnal ymarfer gwacáu adeilad mewn tân. Dyddiadau i'w cadarnhau
- Mae staff wedi cael eu hatgoffa am brosesau a pholisïau'r bwrdd iechyd. Mae polisi meddyginiaethau'r bwrdd iechyd a Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd mewn perthynas â Meddyginiaethau a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd wedi cael eu hargraffu ac wedi cael eu rhoi ar y cwpwrdd meddyginiaeth mewn poced glir. Mae staff wedi cael eu hatgoffa o'r angen i ddarllen a deall y ddwy ddogfen hyn. Mae staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol y bydd hyfforddiant ar gael iddynt yn hwyrach yn 2016 ar ôl i'r pecyn hyfforddiant gael ei gymeradwyo gan y bwrdd iechyd
- Mae'r arweinydd tîm dros dro wedi datblygu dogfen un dudalen i staff sy'n trafod cofnodi gweinyddu meddyginiaeth (wedi ei rhoi ar y cwpwrdd meddyginiaeth)
- Cysylltwyd â'r gwasanaeth fferyllfa i ddarparu tystiolaeth o'i lwybr archwilio yn ogystal â chofnodion o feddyginiaeth a ddosbarthwyd i'r uned ac a ddychwelwyd gan yr uned. Mae'r arweinydd fferyllol wedi



cynnal adolygiad o feddyginiaeth. Gofynnwyd i'r Arweinydd Fferyllol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gynghori ar archwiliad cynhwysfawr o leoliadau lle ceir cyfranogiad gan fferyllfa gymunedol

- Bydd y bwrdd iechyd yn adolygu trefniadau storio'r holl feddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn pecynnau swigod gan y fferyllfa gymunedol
- Mae hyfforddiant dros dro ar reoli meddyginiaeth wedi dechrau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyn i'r pecyn hyfforddiant gael ei gymeradwyo
- Bydd adolygiad o benderfyniadau budd pennaf yn digwydd mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth gudd pan gaiff ei rhoi gyda bwyd neu ddiod
- Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu pecyn hyfforddiant i weithwyr cymorth gofal iechyd a fydd angen cymeradwyaeth gan yr adran Dysgu a Datblygu. Disgwylir y bydd hyfforddiant yn dechrau ar draws y bwrdd iechyd ym mis Hydref 2016 i bob gweithiwr cymorth gofal iechyd sy'n gweinyddu meddyginiaeth
- Arweinydd fferyllol i gysylltu â'r gwasanaeth fferyllfa i sicrhau bod y labeli cywir ar feddyginiaeth a'i bod yn bodloni gofynion cyfreithiol
- Gweithdrefn weithredu safonol i gael ei datblygu ar gyfer cofnodi a dychwelyd meddyginiaethau. Mae proses ar gyfer derbyn a dinistrio meddyginiaeth yn cael ei datblygu ar gyfer cartrefi cymunedol
- Mae rhestr wirio asesu cymhwysedd hefyd wedi cael ei datblygu ac mae rhai o'r staff yn ei defnyddio i adolygu eu harferion meddyginiaeth
- Mae'r arweinydd tîm dros dro wedi cysylltu â Chymdeithas Tai Sir Benfro ac wedi ei hysbysu am y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio y mae ei angen. Aseswyd y gwaith cynnal a chadw gofynnol gan Gymdeithas Tai Sir Benfro a chafodd y llwydni ei unioni dros dro ar 18 Gorffennaf 2016. Roedd angen gwaith pellach ac aethpwyd ar ôl hyn.
- Bydd yr arweinydd tîm dros dro yn mynd o amgylch y gwasanaeth bob wythnos gyda'r prif weithiwr cymorth gofal iechyd i ganfod unrhyw waith cynnal a chadw y mae ei angen gan Gymdeithas Tai Sir Benfro. Bydd yr arweinydd tîm dros dro'n hysbysu am unrhyw waith y mae ei angen ac yn uwchgyfeirio'r problemau a nodir i'r rheolwr gwasanaeth a chaiff hyn ei hysbysu trwy gyfarfod rheoli'r gwasanaeth

- Yn ogystal, bydd materion cynnal a chadw yn eitem barhaol ar yr agenda yn y cyfarfod staff bob mis. Cymdeithas Tai Sir Benfro i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw a nodwyd (yr ystafell ymolchi'n arbennig) yn ystod cyfnod o wyliau sydd wedi ei drefnu ar gyfer y tenantiaid yn ystod yr wythnos yn dechrau 3 Hydref 2016
- Mae canllawiau bwyta ac yfed cyfredol ar gyfer pob tenant ar gael ar FACE (Functional Analysis of the Care Environment), y system cofnodion electronig, er nad oedd staff yn gallu eu cyflwyno ar ddiwrnod yr arolygiad
- Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'r canllawiau bwyta ac yfed ar gyfer pob tenant, ac mae copïau papur wedi cael eu rhoi yng nghofnod personol yr unigolion
- Hyfforddiant tewychydd i gael ei ddarparu gyda chymorth therapi lleferydd ac iaith. Bydd canllawiau bwyta ac yfed yn cael eu hysgrifennu ym mhroffil "Dyma Fi" pob tenant
- Therapi lleferydd ac iaith i ailasesu sgiliau bwyta ac yfed tenantiaid a diweddarau'r canllawiau yn ôl y gofyn
- Roedd y canllawiau cyfredol a oedd ar gael i staff yn mynd yn ôl i ddyddiau Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac er eu bod yn dal yn berthnasol, nid oeddent wedi cael eu hadolygu neu eu diweddarau yn y cyfamser
- Roedd cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal rhwng rheolwr y gwasanaeth a'r uwch-nyrs rheoli meddyginiaethau ynglŷn â sut i ddatblygu Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Byrddau Iechyd mewn perthynas â Meddyginiaethau a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd
- Mae'r arweinydd tîm dros dro wedi datblygu dogfen un dudalen i'r staff sy'n trafod cofnodi gweinyddu meddyginiaeth. Mae staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth weinyddu meddyginiaeth ac wedi cael eu hatgoffa ohonynt. Mae nyrs gofrestrdig yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyfrannu at y gwaith o fonitro gweinyddu meddyginiaeth gan y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn yr uned
- Bydd yr uwch-nyrs rheoli meddyginiaethau yn cwblhau asesiad risg ac yn rhannu'r canfyddiadau â'r holl staff. Bydd yr uwch-nyrs rheoli meddyginiaethau yn ysgrifennu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol mewn perthynas â dirprwyo cyfrifoldeb i weithwyr cymorth gofal iechyd (o ran rheoli meddyginiaeth). Mae hyfforddiant rheoli

meddyginiaeth wedi dechrau a bydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y tîm staff cyfan cyn i'r pecyn hyfforddiant gael ei gymeradwyo

- Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei hadolygu fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol ynglŷn â chofnodion hyfforddiant staff. Mae problemau mynediad at y rhwydwaith wedi cael eu datrys ac mae'r holl staff yn gallu mynd at dudalennau mewnwyd y bwrdd iechyd erbyn hyn, lle mae polisïau cyfredol yn cael eu cadw. Mae gliniadur wedi cael ei archebu er mwyn i staff gael mynediad mwy hyblyg at y rhyngwyd
- Arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol i hyfforddi staff ac i drafod senarios achos yn y cartref gan gynnwys arferion ataliol posibl. Arweinydd tîm dros dro i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol Lefel 1 a 2 mewn diogelu ymysg y tîm staff. Arweinydd tîm dros dro i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol mewn urddas a pharch ymysg y tîm staff.

## **Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol**

Canfuom fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i adeiladwaith yr adeilad, er nad oedd yr holl waith adfer wedi cael ei gwblhau. Roedd gweithdrefnau tân wedi cael eu cwblhau a'u cytuno gan swyddog tân y bwrdd iechyd.

O ran hyfforddiant staff, ychydig iawn oedd wedi cael ei gynnig a dywedwyd wrthym fod cynlluniau datblygiad personol wedi cael eu trefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol, a bod cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol. Byddai anghenion hyfforddiant unigol yn cael eu datblygu ar sail y rhain. Fodd bynnag, roeddem yn dal i bryderu nad oedd hyfforddiant gorfodol yn cael ei gyflawni o hyd.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Gwelsom fod y cyfleusterau yn yr ystafell ymolchi wedi cael eu gwella'n sylweddol a chawsom sgwrs hir am fynediad at welliannau pellach naill ai gan dîm cynnal a chadw'r bwrdd iechyd neu gan Gymdeithas Tai Sir Benfro sy'n berchen ar yr adeilad. Penderfynodd uwch staff y byddai'n fwy amserol i'r perchnogion ymgymryd â'r prif waith o adfer yr adeilad, tra gellid cyflogi tasgmon lleol ar gyfer gwaith mewnol llai fel gosod cwpwrdd ar y wal.

Gwnaethom edrych ar yr offer a oedd ar gael ac roedd digon o gymorth i staff ofalu'n ddiogel am y cleifion. Fodd bynnag, roedd llwydni ar y defnydd ar gefn cadeiriau olwyn a oedd yn cael eu cadw yn yr ystafell ymolchi.

Roedd swyddog tân y bwrdd iechyd wedi cwblhau archwiliad o'r dogfennau ac roedd yn fodlon eu bod yn bodloni'r holl bolisiau a gweithdrefnau cyfredol. Roedd un darn o waith yr oedd angen i'r Gymdeithas Tai ei gyflawni o hyd (drysau patio) er mwyn cwblhau'r llwybr dianc rhag tân.

Gofynnem a oedd y cwpwrdd allweddi gyda chod aml-rif wedi cael ei archebu i gadw allweddi cypyrddau er mwyn sicrhau bod dogfennau personol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn gyfrinachol. Cadarnhaodd staff fod y cwpwrdd wedi cael ei brynu ond roedd adran ystadau'r bwrdd iechyd wedi rhoi dyddiad o fewn pythefnos ar gyfer ei osod ar y wal. Awgrymodd uwch reolwyr y gallai tasgmon lleol gyflawni'r gwaith hwn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl offer, gan gynnwys cadeiriau olwyn, yn addas at y diben.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Gymdeithas Tai yn cyflawni'r gwaith sydd heb ei orffen yn brydlon.

## 2.5 Maeth a hydradu

Er nad oeddem yn pryderu'n ormodol am faeth a hydradu cleifion, gwelsom asesiad gan y therapydd lleferydd ac iaith a oedd yn nodi'r angen am dewychydd bwyd nad oedd wedi bod ar gael am o leiaf mis ar ôl yr asesiad. Cawsom ein sicrhau bod y mater hwn wedi cael ei unioni.

Yn ogystal, ar ddiwrnod yr arolygiad roedd aelod o staff i fod i yrru i Gaerfyrddin i gasglu arian i brynu nwyddau cartref gan gynnwys bwyd. Roedd yn amlwg o drafodaethau â staff nad oedd hon yn broses gadarn ac weithiau nid oedd unrhyw arian yn y cartref ar gyfer hanfodion sylfaenol, fel llaeth a bara. Mae'n hanfodol bod digon o arian ar gael ar bob adeg. Trafodom hyn â'r uwch reolwyr. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom ysgrifennu at brif weithredwr y bwrdd iechyd a chawsom sicrwydd fod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn. Nodir manylion pellach yn Atodiad c.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y cartref fynediad rhwydd at ddigon o arian ar gyfer hanfodion sylfaenol ar bob adeg.

## Rheoli meddyginiaethau

Edrychom ar y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau a chanfuom adrannau heb eu llofnodi ac ni chafwyd esboniad o'r rhain. Trafodom hyn ag uwch staff a chasglwyd bod hyn yn ymwneud ag un diwrnod penodol ac y gellid rhoi sylw i'r mater.

Roedd polisi newydd wedi cael ei ddatblygu yn ymwneud â gweinyddu meddyginiaeth 'yn ôl yr angen' (PRN). Roedd hyn yn golygu bod gofyn i staff gysylltu â'r gwasanaeth ar alw am ganiatâd cyn gweinyddu unrhyw feddyginiaeth PRN. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o archwiliad wedi'i gofnodi o'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.

Dywedodd staff wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant meddyginiaeth gan fferyllfa allanol a oedd yn eglur, yn ddiddorol ac yn werth chweil. Er bod y bwrdd iechyd wedi nodi y bydd hyfforddiant ar-lein ar gael hefyd, nid yw'r holl staff yn gallu cael mynediad at y fewnwyd.

Mae dull asesu cymhwysedd wedi cael ei ddatblygu ond hyd yma nid yw'r holl staff wedi derbyn yr asesiad hwn i sicrhau bod eu harfer yn ddiogel ac yn bodloni polisi gweinyddu meddyginiaeth y bwrdd iechyd.

Gwelsom nad oedd oergell bwrpasol ar gyfer storio cyffuriau fel gwrthfotigau hylif. Cafwyd caniatâd gan uwch reolwyr i brynu oergell ar unwaith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd o'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hystyried yn gymwys i weinyddu meddyginiaeth.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gofynnem a oedd polisiau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddarau, yn unol ag arfer cyfredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a dywedwyd wrthym fod y rhain ar gael ar y fewnwyd yn awr i staff eu darllen. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd yr holl staff yn gallu cael mynediad at y fewnwyd.

Dywedodd staff wrthym nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol nac Urddas a Pharch eto. Trafodom hyn â'r uwch staff ac eto dywedwyd wrthym y byddai hyn yn dilyn ar ôl y sesiynau cynlluniau datblygiad personol arfaethedig a sesiynau goruchwyllo unigol. Mae AGIC yn pryderu, fel y nodir uchod, nad meysydd o ddatblygiad unigol yw'r rhain ond yn hytrach meysydd o hyfforddiant gorfodol y mae ei angen ar yr holl staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn derbyn yr holl hyfforddiant gorfodol yn ôl y gofyn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae AGIC yn parhau i bryderu bod staff yn teimlo nad yw eu barn yn cael ei chlywed ac nad ydynt yn derbyn cefnogaeth. Mae cyfathrebu rhwng haenau o staff y parhau yn wan ac yn faes y mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw iddo.

## Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Ceisiodd AGIC sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'r canlynol:
  - Mae angen rhoi trefniadau rheoli ar waith ar frys i sicrhau bod y staff yn cael digon o gymorth rheoli gan nyrs gofrestredig. At hynny, mae angen esboniad clir o linellau rheoli ac atebolrwydd proffesiynol.

- Mae angen monitro lefelau dibyniaeth cleifion a chynnal adolygiad o drefniadau staffio yn unol â'r lefelau hynny.
- Mae angen rhoi sylw ar frys i'r lefelau staffio ac mae angen uwchgyfeirio'r anawsterau wrth gael staff newydd yn ddi-oed
- Mae angen i'r bwrdd iechyd gael systemau uwchgyfeirio priodol pan nodir lefelau staffio annigonol.
- Mae angen i'r bwrdd iechyd nodi unrhyw wendidau o ran rheolaeth, arweinyddiaeth neu lywodraethu a all fod wedi cyfrannu at y materion a ganfuwyd yn ystod ein harolygiad.

## **Pa gamau a ddywedodd y gwasanaeth y byddent yn eu cymryd**

Cadarnhaodd y gwasanaeth fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, neu yr ymrwymwyd i gymryd camau fel a ganlyn:

- Mae staff wedi cael eu hatgoffa am linellau atebolrwydd y rheolwyr. Rhoddodd ymweliad â'r gwasanaeth ar 3 Tachwedd 2016 gan bennaeth y gwasanaeth a rheolwr y gwasanaeth gyfle i gadarnhau'r trefniadau hyn a thrafod unrhyw bryderon parhaus â staff
- Mae'r nyrs arwain broffesiynol ar gyfer anableddau dysgu'n gweithredu'n arweinydd tîm dros dro yn y gwasanaeth am gyfnod o dri mis o leiaf. Bydd yr arweinydd dros dro yn ymgymryd â rôl oruchwyliol ar gyfer yr holl unedau cleifion mewnol ar Fand 7 a bydd staff cyflenwi ychwanegol ar Fand 6/7 yn cael eu recriwtio i gefnogi sifftiau
- Cynhaliwyd adolygiad o swyddogaeth cydlynnydd sifftiau a bydd y swydd hon yn cael ei gwerthuso
- Ail-sefydlwyd cyfarfodydd tîm misol a byddant yn cael eu cofnodi i gynnwys adborth o gyfarfod y Dangosfwrdd Anableddau Dysgu (Busnes), Grŵp Cyfeirio'r Tîm Aml-ddisgyblaeth (Llywodraethu Clinigol), cyfarfod y Gofrestr Risg a chyfarfod Amcanion Gwasanaeth.
- Mae gwybodaeth wedi cael ei hail-ddosbarthu i'r holl staff anabledd dysgu ynglŷn â sut i uwchgyfeirio pryderon clinigol a/neu bryderon rheoli ar ffurf memo. Mae rheolwr y gwasanaeth wedi ymweld ar ambell i achlysur ac mae'n cadw cysylltiad rheolaidd ar y ffôn i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi

- Mae cydlynwyr sifftiau wedi cael eu nodi ac maent yn cael eu henwi ar y cofnod trosglwyddo gofal ac ar yr amserlen ddyletswyddau. Mae'r arweinydd tîm dros dro'n trafod dyddiadau ar gyfer goruchwyllo'r holl staff yn ffurfiol fel grŵp ac yn unigol.
- Mae'r arweinydd tîm dros dro'n trafod dyddiadau ar gyfer goruchwyllo'r staff hynny nad yw'n gyfredol
- Cwblhawyd adolygiad o ddibyniaeth cleifion a chasglwyd bod angen tri gweithiwr cymorth ar gyfer y sifft dydd ac un yn cysgu, un yn effro yn ystod y nos
- Mae adolygiad o nifer y staff cyfredol wedi dangos bod angen adolygu'r strwythur staffio i sicrhau bod digon o staff ar gael. Bydd hyn yn cynnwys strwythur diwygiedig a fydd yn rhoi sylw i sicrhau bod cydlynwyr sifftiau a gweithiwr Gradd 5/6 ar gael ar gyfer sifftiau. Bydd system gofnodi Datix yn cofnodi unrhyw sifftiau lle nad oedd digon o staff yn gweithio. Bydd system gofnodi Datix yn rhybuddio rheolwyr am unrhyw batrymau parhaus. Bydd y staff yn cysylltu â Band 7 ar unwaith os na fydd digon o staff ac mae staff asiantaeth wedi cael eu rhoi ar waith fel trefniant dros dro. Mae hysbysebion am staff banc anabledau dysgu wedi cael eu cylchredeg ac mae 19 o ymgeiswyr yn cael cyfweiliad ar 1 Rhagfyr 2016. Bydd swydd barhaol 30 awr ychwanegol yn cael ei hysbysebu. Mae staff rhan amser presennol wedi cael oriau ychwanegol i gefnogi cydweithwyr. Mae gweithwyr cyflenwi hyblyg o uned arall yn Sir Benfro yn ychwanegu at nifer y staff.
- Ble y bo'n briodol, bydd gweithgareddau'n cael eu cyfuno â phreswylwyr o uned arall er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu canslo
- Bydd yr amserlenni dyletswydd yn cael eu harchwilio i ganfod sawl gwaith yn y chwe mis diwethaf mae lefelau staffio wedi cwmpo o dan y lefel ofynnol. Cymeradwyo staff asiantaeth ar unwaith i gefnogi'r tîm staff presennol. Cytunwyd i gyflogi gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol i fodloni'r anghenion asesedig 2:1
- Dyrannwyd gweithwyr proffesiynol o dîm anabledau dysgu cymunedol Sir Benfro ar gyfer pob tenant yn y lleoliad byw â chymorth hwn
- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r swyddfa banc i sicrhau bod cronfa o staff wedi eu hyfforddi'n briodol ar gael i'w recriwtio i gefnogi'r unedau.



## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Archwiliom ymrwymadau'r bwrdd iechyd i newid gyda'r uwch dîm rheoli a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad a chanfuom na ellid cadarnhau llawer o'r ymrwymadau. Er enghraifft:

- Roedd angen newid prosesau o hyd o ran uwchgyfeirio pryderon o fewn a'r tu allan i oriau
- Nid yw hyfforddiant Datix wedi cael ei gynnig i alluogi cofnodi pryderon yn electronig
- Ni ellid cadarnhau ymweliadau rheolaidd gan reolwr y gwasanaeth
- Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni allem weld tystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a bod adolygiadau datblygiad perfformiad a goruchwyllo wedi cael eu cynnal yn llawn

Fodd bynnag, canfuom fod uwch reolwyr wedi ymweld â'r lleoliad i drafod prosesau ac i ateb unrhyw gwestiynau yr oedd staff am eu codi. Dywedwyd wrthym fod uwch reolwyr yn ymweld yn rheolaidd, ond ni chadarnhawyd hyn gan staff. Awgrymon y dylai llyfr ymwelwyr fod ar gael i alluogi pobl i lofnodi wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Byddai hwn yn cofnodi ymweliadau gan uwch reolwyr hefyd.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau datblygiad perfformiad i gael eu cwblhau yn ystod yr wythnos ganlynol ac felly y byddai cyfarfodydd goruchwyllo unigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y dyfodol. Byddai anghenion hyfforddiant unigol yn cael eu nodi ar sail y rhain.

Yn dilyn yr arolygiad, derbyniom dystiolaeth gan y bwrdd iechyd fod y broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon wedi cael ei chyfathrebu i staff ym mis Gorffennaf 2016. Derbyniom gopïau hefyd o gofnodion cyfarfodydd tîm a chadarnhad bod wyth allan o 11 aelod o staff wedi derbyn arfarniad diweddar. Gwelsom o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fod cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal ym mis Ebrill 2017 (yn dilyn arolygiad), mis Chwefror 2017 a mis Medi 2016, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal rhwng mis Medi a mis Chwefror. Mae angen cadw at yr ymrwymadau a wnaed yn y meysydd hyn yn barhaus.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymrwymadau gwreiddiol i wella darpariaeth gwasanaeth yn cael sylw, gan gynnwys adolygu'r broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon. Mae angen cyflwyno cofnodion cyfarfodydd i AGIC, gyda chadarnhad bod adolygiadau datblygiad perfformiad wedi cael eu cwblhau a bod cyfarfodydd goruchwyllo'n cael eu cynnal.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Archwiliom ymrwymadau'r bwrdd iechyd i newid gyda'r uwch dîm rheoli a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad a chanfuom na ellid cadarnhau llawer o'r ymrwymadau. Er enghraifft:

- Nid oedd y swydd Band 6 wedi cael ei hysbysebu
- Nid oedd y datganiad o ddiddordeb Band 5/6 wedi cael ei gylchredeg
- Ni roddwyd sylw i'r mater o gael staff ychwanegol ar Fand 6/7 i gefnogi Band 7
- Nid oedd cydlynwyr sifftiau wedi cael eu nodi gan fod staff wedi herio'r penderfyniad.

Gwelsom fod yr arweinydd tîm blaenorol wedi ymddeol a bod y swydd erbyn hyn yn wag. Er bod yr arweinydd tîm dros dro yn ei swydd am dri diwrnod yr wythnos, roedd yn amlwg nad oedd hwn yn ateb hirdymor. Dywedodd staff wrthym nad oedd tri diwrnod yn ddigonol i gyflawni'r gwaith yn effeithiol a chadarnhawyd hynny gan yr arweinydd tîm dros dro. Roedd uwch reolwyr wedi cytuno i hysbysu'r swydd arweinydd tîm Band 6 fel datganiad o ddiddordeb ar unwaith gydag ymrwymiad i ddatrys hyn o fewn pythefnos

Roedd staff asiantaeth yn gweithio ar gontract a gwelsom un ohonynt yn gweithio fel aelod o'r tîm yn ystod yr arolygiad. Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi recriwtio oddeutu 12 o staff i ddatblygu system staff banc a fyddai'n gymwys ac yn cael eu defnyddio i weithio yn y lleoliadau preswyl. Fodd bynnag, esboniodd uwch reolwyr fod problem yn system recriwtio'r bwrdd iechyd a oedd yn golygu bod oedi hir rhwng cyfweiliadau a dechrau cyflogaeth. Roedd y staff dan sylw wedi cael eu recriwtio ym mis Rhagfyr 2016 ac nid oeddent wedi dechrau gweithio ym mis Ebrill 2017. Mae AGIC wedi ysgrifennu at brif

weithredwr y bwrdd iechyd ac wedi derbyn sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi sylw i'r mater hwn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C.

Roedd aelod arall o staff wedi cael ei recriwtio i'r swydd 30 awr ac roedd i fod i ddechrau gweithio'r wythnos ganlynol. Yn ogystal, cadarnhaodd staff y siaradom â nhw fod staff cyflenwi o leoliad bwrdd iechyd arall ar gael pan oedd gofyn yn awr.

Fel y nodwyd yn flaenorol mae dau gydlynnydd gweithgareddau wedi cael eu cyflogi ac roeddent i fod i ddechrau gweithio'r wythnos ganlynol. Cadarnhaodd staff fod trefniadau gyda lleoliad lleol i rannu gweithgareddau fel y sesiynau hydrotherapi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses recriwtio yn amserol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall ein harolygiadau dilynol fod naill â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael hyd at 12 wythnos o rybudd o bosibl am yr arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Golyga hyn y byddwn ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn bob amser yn ystyried agweddau perthnasol ar:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella sy'n rhagorol ac sydd angen eu gwneud.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon ar unwaith ar yr achlysur hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Ward/Adran:** 16024F

**Dyddiad yr arolygiad:** 4 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella ar unwaith ar yr achlysur hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd yn gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun Gwella

**Ysbyty:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Ward/adran:** 16024F

**Dyddiad yr arolygiad:** 4 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar gyfer cynnig gwasanaeth eiriolaeth.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae ffurflenni a thafleuni eiriolaeth ar gael yn yr uned.	Arweinydd tîm	Cwblhawyd
		Wedi trafod â gwasanaeth eiriolaeth sydd wedi cau'r achos yn awr oni bai bod angen – ac os felly gellir gwneud ail atgyfeiriad. Mae teulu pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gynnwys ac mae pob teulu wedi cael ei wneud yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth a sut i wneud atgyfeiriad.	Arweinydd tîm	Cwblhawyd
		Bwriedir dechrau mynychu grwpiau Pobl yn Gyntaf Sir Benfro yn y dyfodol agos	Arweinydd tîm/cynorthwywyr	



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		(yn ddibynnol a fydd y defnyddwyr gwasanaeth yn mwynhau'r profiad).	symudedd	31 Awst 2017
Rhaid i gleifion ag anghenion iechyd meddwl penodol dderbyn gofal dan ddarpariaethau'r Mesur Iechyd Meddwl.	5.1 Mynediad amserol	Mae gan y defnyddiwr gwasanaeth gynllun gofal a thriniaeth cyfredol yn awr a fydd yn cael ei drafod a'i gymeradwyo gyda'r tîm amlddisgyblaeth ar 18 Mai 2017.	Arweinydd tîm	18 Mai 2017
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a chofnodion cleifion yn unigol, yn amserol ac yn gyflawn.</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad at gynlluniau gofal electronig a'r system fewnrwyd estynedig.</p>	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	<p>Mae pob cynllun gofal yn cael ei gwblhau ac mae copïau ar gael mewn ffeil ar "Partneriaid Gofal" (y system reoli cofnodion electronig).</p> <p>Mae'r holl staff wedi cael cyfle i drafod materion â'r adran Technoleg Gwybodaeth sydd wedi ymweld â'r uned ar ddau achlysur.</p> <p>Gofynnwyd i staff hysbysu'r arweinydd tîm ac ar y fewnrwyd/llynell gymorth TG am unrhyw broblemau pellach os yn bosibl.</p> <p>Bydd yr adran TG yn galluogi WI-FI yn yr uned a fydd hefyd yn helpu i wella mynediad TG.</p>	<p>Arweinydd tîm</p> <p>Arweinydd tîm/arweinydd TG</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Gorffennaf 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau dull diogel a hygyrch o reoli arian cleifion unigol.</p>		<p>Yn dilyn adborth am y pryder hwn, cynhaliwyd archwiliad ddydd Iau 6 Ebrill 2017. Roedd yr oedi oherwydd nad oedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi anfon y siec ad-daliad at y staff yn leoliad i'w newid am arian parod, oherwydd gwyliau blynyddol a diffyg trefniadau cyflenwi.</p>	Llesiant Cleifion	Cwblhawyd
		<p>Fel trefniant amgen, mae staff wedi cael mynediad at ddigon o arian parod i gefnogi rhedeg yr uned o ddydd i ddydd. Yn ogystal, mae trefniadau ar waith i wneud cyllid brys ar gael i'r uned, os oes angen, o gyfleuster mwy lleol wedi'i leoli yn (gwybodaeth wedi ei olygu).</p>	Pennaeth y gwasanaeth	Cwblhawyd
		<p>Mewn ymateb i'ch sylw nad oedd gan bobl sy'n byw yn yr uned eu cyfrifon banc eu hunain, ac y dylid ymchwilio i opsiynau gyda'r nod o agor cyfrifon banc unigol gyda chardiau debyd er mwyn defnyddio arian yr unigolyn yn ddiogel, bydd Pennaeth y Gwasanaeth</p>	Pennaeth y gwasanaeth	31 Gorffennaf 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r nyrs arwain broffesiynol greu amserlen 24 awr o weithgareddau ar gyfer pob claf.</p>		<p>Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, yn ymchwilio'n rhagweithiol i ddull amgen o weinyddu cyllid cleientiaid, sy'n cyd-fynd ag arferion mewn mannau eraill yng Nghymru.</p> <p>Proses barhaus o asesu gweithgareddau a chyfranogiad, bydd y swyddi cydlynwyr gweithgareddau newydd yn cael effaith sylweddol ac mae'r ddau gydlynwyr wedi dechrau gweithio yn yr uned. Mae amserlen wythnosol ar waith sy'n dangos yn glir pa weithgareddau sydd wedi eu trefnu a phwy sy'n gyfrifol am eu cynnal gydag unigolion. Ailsefydlwyd timau gweithiwr allweddol a disgwylir iddynt gyfarfod bob chwe wythnos i adolygu a chynllunio gweithgareddau a chynlluniau gofal.</p>	<p>Cynorthwywyr symudedd/arweinydd tîm</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd</p>	<p>Cafwyd rhai problemau o ran gwaith</p>	<p>Arweinydd tîm</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>offer, gan gynnwys cadeiriau olwyn, yn addas at y diben.</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Gymdeithas Tai yn cyflawni'r gwaith sydd heb ei offen yn brydlon.</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn derbyn yr holl hyfforddiant gorfodol yn ôl y gofyn.</p>	<p>a diogelwch</p>	<p>atgyweirio prydlon, felly mae'r rhain yn cael eu cofnodi trwy gyfrwng Datix yn awr er mwyn gallu uwchgyfeirio'r broses o hysbysu am oedi.</p> <p>Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu sefydlu â swyddog tai yr Uned Breswyl yng Nghymdeithas Tai Sir Benfro. Mae'r rhain wedi darparu sicrwydd ac eglurder o ran cyfrifoldeb dros waith atgyweirio a chynnal a chadw parhaus.</p> <p>Bydd pennaeth y gwasanaeth yn cyfarfod â chyfarwyddwr newydd y gymdeithas tai cyn bo hir i dderbyn sicrwydd pellach bod unrhyw waith sydd heb ei gyflawni'n cael sylw'n brydlon.</p> <p>Mae staff wedi cael eu hysbysu yn eu hadolygiad arfarniad a datblygiad personol am yr angen i ddiweddarau'r holl hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Cyflwynwyd cyfarfodydd staff ac maent yn cael eu cynnal ar ddydd Gwener olaf bob mis. Mae'r awr gyntaf yn cael ei neilltuo ar gyfer y cyfarfod tîm a bydd yr</p>	<p>Pennaeth gwasanaeth</p> <p>Arweinydd tîm</p> <p>Arweinydd tîm</p>	<p>y 30 Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ail awr yn sesiwn hyfforddiant staff.		
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y cartref fynediad rhwydd at ddigon o arian ar gyfer hanfodion sylfaenol ar bob adeg.	2.5 Maeth a hydradu	Cwblhawyd hyn yn awr, cafwyd fynediad at arian yn ddiweddar trwy uned yn Hwlfordd.	Arweinydd tîm	Cwblhawyd
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd o'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.  Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hystyried yn gymwys i weinyddu meddyginiaeth.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Cynhelir archwiliadau a gwiriadau yn y fan a'r lle ar staff yn fisol.  Caiff pob aelod o staff ei archwilio'n flynyddol o ran rheoli meddyginiaeth a chydymffurfiaeth.	Arweinydd tîm	Cwblhawyd
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymrwymadau gwreiddiol i wella darpariaeth gwasanaeth yn cael sylw, gan gynnwys adolygu'r broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon. Mae angen cyflwyno cofnodion cyfarfodydd i AGIC, gyda chadarnhad bod adolygiadau datblygiad perfformiad wedi cael eu cwblhau a bod cyfarfodydd goruchwyllo'n cael eu cynnal.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Darparu copiâu o gofnodion y tri chyfarfod tîm diwethaf, rhestr o'r dyddiadau a rhestr gyswllt ar gyfer arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad, a'r broses uwchgyfeirio pryderon.	Arweinydd tîm	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses recriwtio yn amserol.</p>	<p>7.1 Gweithlu</p>	<p>Mae adolygiad o'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn: mae 14 o bobl wedi cael cynnig swyddi neu wedi cael eu penodi ar yr adnodd banc ar gyfer anableddau dysgu, tri unigolyn yn dilyn cyfweiliad ym mis Tachwedd ac 11 arall yn dilyn cyfweiliadau ym mis Ionawr.</p> <p>O'r 14 hyn, mae tri unigolyn wedi dechrau gweithio, tynnodd un yn ôl o'r broses, ac mae tri wedi mynd trwy'r broses recriwtio gyda dyddiadau dechrau wedi eu cadarnhau neu i'w cadarnhau yn fuan iawn.</p> <p>O'r saith sy'n weddill, mae dyddiad dechrau un ohonynt wedi cael ei ohirio oherwydd bod yr unigolyn wedi gofyn am ohriad am resymau personol; mae angen gwirio dogfennau'r lleill ac mae'r tîm recriwtio wedi mynd ar ôl hyn yn rhagweithiol a gobeithir y byddant yn dechrau eu cyflogaeth yn fuan.</p>	<p>Cyfarwyddwr y gweithlu</p>	<p>30 Mehefin 2017</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** Mandy Davies

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro

**Dyddiad:** 17 Mai 2017